# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL
# Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru)

1. Cyhoeddwyd Mesur Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) ar 25 Mai 2005. Ar 21 Mehefin 2005 anfonodd cyfarfod llawn y Cynulliad y Mesur i'r Pwyllgor er mwyn iddynt gael craffu arno.

2. Mae'r Mesur yn sefydlu swydd Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru fydd â galluoedd a dyletswyddau tebyg i rai'r Comisiynydd Plant yng Nghymru. Cafodd Mesur drafft ei gynnwys yn Araith y Frenhines ym mis Tachwedd 2004 a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2005 ar gyfer craffu arno cyn y broses ddeddfu. Roedd y Mesur yn rhan o gynigion deddfwriaeth sylfaenol Llywodraeth y Cynulliad i Lywodraeth y DU ar gyfer sesiwn seneddol 2004-05.

3.Cafodd y Mesur ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 25 Mai 2005 a chwblhau'i daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 11 Chwefror 2006. Cafodd ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Chwefror 2006 ac ar hyn o bryd mae'n disgwyl ei Ail Ddarlleniad.

4. Roedd y Pwyllgor eisoes wedi craffu ar y Mesur drafft ar 25 Mai 2005 ac wedi cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad (mewnosod hypergyswllt).

5. Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol ynglŷn â'r Mesur:

i. Cymal 13 - mae angen cryfhau'r cymal hwn a'i gefnogi drwy is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau i ddiogelu'r dybiaeth y bydd pobl yn cael eu cyfweld yn breifat, ac na fydd neb arall yn bresennol yn y cyfweliad oni cheir cais am hynny gan y rhai sy'n cael eu cyfweld, neu bod angen hynny am resymau clinigol neu rai tebyg.

ii Cymal 16 - Dylai'r Rheoliadau fynnu bod unrhyw adroddiad a gynhyrchir ar y cyd gan y Comisiynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael ei anfon at y Prif Weinidog.

iii. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod angen egluro swyddogaethau gwahanol y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd ac y dylai deiliaid y swyddi hyn gydymgynghori â'i gilydd a chydweithio lle bo hynny'n briodol.

iv. Sicrhawyd y Pwyllgor gan y Dirprwy Weinidog y byddai'r Comisiynydd yn cael, drwy'r Cynulliad, gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar unrhyw fater sy'n ymwneud â buddiannau pobl hŷn yng Nghymru. Rhagwelir hefyd y ceir trefniadau tebyg i'r rhai a geir yn achos y Comisiynydd Plant sydd yn cael trafod yn uniongyrchol â Gweinidogion Swyddfa Cymru unrhyw faterion nas datganolwyd sydd yn effeithio ar blant yng Nghymru.

6. Yn amodol ar y sylwadau uchod roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y Mesur.

**Rhodri Glyn Thomas AC**
**Cadeirydd**